**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/MR

6 Mawrth 2017

Annwyl Mr Ramsay

**Amseroedd Aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau Orthopedig**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy ymddangosiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Ionawr 2017 i roi ichi ddiweddariad dros dro.

O ran amseroedd aros y GIG; er fy mod i'n cydnabod bod y Pwyllgor wedi'i siomi â chyflymder y newid, yn enwedig o ran rheoli galw, gallaf eich sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae amseroedd aros eleni yn is na'r adeg hon y llynedd, gyda nifer y rheini oedd yn aros am 36 wythnos 23% yn is ym mis Rhagfyr 2016 nag yr oedd ym mis Rhagfyr 2015 a 30% yn is na'r lefel uchel ym mis Awst 2015. Roedd amseroedd aros am brofion diagnostig 29% yn is ym mis Rhagfyr 2016 nag yr oeddynt ym mis Rhagfyr 2015. Bydd rhagor o welliannau eto yn cael eu gweld erbyn diwedd mis Mawrth. Byddwch hefyd yn falch o glywed bod cyfanswm yr unigolion ar y rhestr aros 15,000 (3.4%) yn is na'r lefel uchel ym mis Awst 2015.

Er mwyn nodi faint o gapasiti sydd ar gael i fyrddau iechyd a faint o gapasiti sydd ei angen i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol at y dyfodol, mae cynnal y cydbwysedd rhwng capasiti a galw yn rhan allweddol o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y GIG. Mae Llywodraeth Cymru yn dwyn y gwasanaeth iechyd i gyfrif am hyn. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i roi gwybod i'r Pwyllgor fod byrddau iechyd yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall faint o gapasiti sydd ei angen ar sail ranbarthol, a hynny o safbwynt gofal dewisol ynghyd â gwasanaethau diagnostig fel cymorth ychwanegol o ran y capasiti lleol.

Mae rhoi ffocws ar effeithlonrwydd ar draws y broses gofal wedi'i gynllunio yn faes arall sy'n ofynnol yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd. Bydd cynnydd yn erbyn y meysydd allweddol cenedlaethol hyn a'u cynlluniau lleol yn cael ei fonitro'n ffurfiol bob chwarter yn 2017-18.

O ran y rheolau diwygiedig ar gyfer rheoli cleifion sydd ar y rhestr aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT), mae'r ddogfen hon wedi bod yn destun ymgynghoriad y mis hwn â'r GIG a



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

rhagwelir y bydd y canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi ddiwedd y mis, yn unol â'r targed gwreiddiol, i'w gweithredu o fis Ebrill 2017. Nid yw hyn yn cynnwys y *Canllaw i Arfer Da – cleifion allanol*, sydd wedi'i diweddaru a'i diwygio, a fydd yn cael ei lansio yng nghynhadledd genedlaethol 1000 o Fywydau ar 29 Mawrth 2017.

Mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion allanol sy'n addas i'r 21ain Ganrif, ac mae byrddau iechyd, clinigwyr a chleifion wedi bod yn rhan o hyn. Mae mwy na 300 o gleifion wedi cymryd rhan uniongyrchol yn y broses drwy gymryd rhan mewn gweithdai neu ddigwyddiadau ac rydym wedi cael mwy na 1,200 o ymatebion i'n holiadur ar-lein. Mae hyn wedi ein helpu i lunio ein gweledigaeth ar gyfer cleifion allanol ac rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd i roi'r weledigaeth hon ar waith yn gyflym.

Mae'r Bwrdd Cyflawni Gofal Wedi'i Gynllunio Orthopedig, sy'n is-grŵp o'r Rhaglen Cyflawni Gofal Wedi'i Gynllunio, wedi bod yn datblygu manyleb genedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Triniaeth ac Asesiadau Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) y dylid ei chymhwyso'n gyson ar draws pob bwrdd iechyd. Mae gwaith wedi'i wneud i ddeall faint o gynnydd y mae'r byrddau iechyd wedi'i wneud o ran sefydlu eu gwasanaeth CMATS / Cyhyrysgerbydol (MSK) a pha effaith yr oedd y gwasanaethau hyn yn ei chael ar atgyfeiriadau i ofal eilaidd.

Dangosodd yr adolygiad bod yr arferion yn amrywio ledled Cymru ac, felly, cytunodd y Bwrdd Cyflawni Gofal Wedi'i Gynllunio Orthopedig i ddatblygu cyfres o ganllawiau cenedlaethol safonol i sicrhau bod y gwasanaeth CMATS / MSK sydd ar waith yn cyflawni'n gyson ledled Cymru. Fel y bwrdd iechyd â'r gwasanaeth sy'n perfformio orau, gofynnwyd i glinigwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg arwain ar y gwaith, ac maent hefyd wedi dysgu o waith a wnaed mewn byrddau iechyd eraill. Mae pob bwrdd iechyd yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd a phob un wedi bod yn rhan o'r trafodaethau am y canllawiau. Gyda hyn, byddaf yn cyhoeddi canllawiau o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru. Mae'r canllawiau yn cynnwys nifer o ddangosyddion perfformiad a disgwylir i fyrddau iechyd adrodd ar hyn bob chwarter, gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2017 ar gyfer chwarter cyntaf 2017-18.

Mae'r pedwar bwrdd cyflawni arbenigol sy'n rhan o'r Rhaglen Gofal Wedi'i Gynllunio wedi cyhoeddi canllawiau ar weithdrefnau sydd o werth cyfyngedig, ac mae'r rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae clinigwyr yn cael eu cynrychioli ar bob un o'r Byrddau hyn, ac rwy'n disgwyl i'r clinigwyr hynny ddatblygu ar y gwaith hwn gyda'u cydweithwyr yn lleol. Mae adroddiadau'n cael eu cynhyrchu yn rheolaidd i dynnu sylw at unrhyw weithgarwch yn erbyn y gweithdrefnau o werth cyfyngedig. Maent yn cael eu trafod ym mhob bwrdd cyflawni, fel y bo'n briodol, a gofynnir i arweinwyr clinigol egluro pam y bo gweithgarwch yn erbyn y gweithdrefnau hyn, os bu yna weithgarwch, wedi digwydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Os nad yw'r Byrddau yn fodlon â'r ymatebion, yna cânt eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Rhaglen Gofal Wedi'i Gynllunio ac i brif swyddogion gweithredu'r bwrdd iechyd. Mae is-set fach o'r gweithdrefnau hyn hefyd yn cael eu hadolygu fel mesurau o fewn y fframwaith cyflawni cenedlaethol.

Rwyf hefyd wedi trafod ag Ysgrifennydd y Cabinet yr opsiynau ar gyfer darparu gwell gwasanaethau orthopedig ym mhob cwr o Gymru. Mae yntau wedi gofyn i uwch-swyddogion gynnal adolygiad o wasanaethau orthopedig a beth ellir ei wneud i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, yn unol â gwaith y bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Orthopedig cenedlaethol.

Byddaf yn ysgrifennu eto ddiwedd yr haf gyda diweddariad pellach.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**